REES, DAVID (1751 - 1818), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: David Rees
Dyddiad geni: 1751
Dyddiad marw: 1818
Rhiant: Rhys Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1751 yn y Gymrig, Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, mab Rhys Rees, un o aelodau blaenllaw'r seiat Fethodistaidd yn Llanfynydd. Dechreuodd bregethu yn 1782 a daeth i amlygrwydd yn fuan yn y de a'r gogledd. Bu'n gydymaith unwaith i ' Williams, Pantycelyn ' ar daith bregethu. Cymerwyd ef i'r fyddin, ond rhyddhawyd ef trwy ddylanwad g r bonheddig o'r ardal. Neilltuwyd ef i'r weinidogaeth yn sasiwn ordeinio gyntaf y Methodistiaid yn Llandeilo Fawr, 1811. Bu farw pan oedd ar daith, ym Mhontypridd, 10 Medi 1818, a chludwyd ei gorff i'w gladdu yn Llanfynydd. Cyfrifid ef yn ddiwinydd craff, a phregethai'n sylweddol ac yn rymus.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y Drysorfa, 1843, 235

Methodistiaeth Cymru (1851–6), ii, 429

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 458

James Morris, *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (1911), 20

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804678

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu